

CYFARFOD: Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

DYDDIAD: 8 Chwefror 2018

TEITL: Cyllideb Refeniw 2017/18 – Adolygiad Trydydd Chwarter (Rhagfyr 2017)

PWRPAS: Adroddiad Monitro ar y Sefyllfa Ariannol Ddiweddaraf

GWEITHREDIAD: Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau.

SWYDDOG CYSWLLT: Dafydd L Edwards, Pennaeth Gyllid

AELOD CABINET: Cyngorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet dros Gyllid

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Cyllideb Refeniw 2017/18 – Adolygiad Trydydd Chwarter) i'r Cabinet ar 16 Ionawr 2018.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu, ynghyd â'r daflen penderfyniad perthnasol sydd ar y dudalen nesaf.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:

Taflen Penderfyniad Cabinet 16/01/2018

Adroddiad Cyllideb Refeniw 2017/18 – Adolygiad Trydydd Chwarter (Cabinet 16/01/2018)

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 16 Ionawr 2018

Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd

31 Ionawr 2018

PWNC

Eitem 9: CYLLIDEB REFENIW 2017/18 – ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER (Rhagfyr 2017)

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd y trydydd chwarter (sefyllfa 31 Rhagfyr 2017) o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, gan ofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu harweiniad / rheolaeth.

Penderfynwyd i gynaeafu (£270k) o danwariant Gostyngiad Treth y Cyngor, (£12k) tanwariant un-tro ar fidiau a (£803k) o ganlyniad i dderbyniad grant ac amgylchiadau ffafriol ar gyllidebau eraill y Cyngor, gan eu trosglwyddo i'r Gronfa Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda pwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor, gyda elfen ohono ar gyfer digolledu effaith gorwariant posib ar gludiant tacsis ysgolion ar ddiwedd y flwyddyn.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad
